



Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

13 Ionawr 2023

9:00 am to 1:00 pm

dros Zoom

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Ann Woods, Catrin Roberts, Cynghorydd Dilwyn Morgan, Cynghorydd Elen Heaton, Cynghorydd Christine Jones, Cynghorydd Alun Roberts, Cynghorydd Liz Roberts (yn bresennol o 9:40am), Cynghorydd John Pritchard, Dave Hughes, Dylan Owen, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Fon Roberts, Gill Harris, Lucy Reid, Neil Ayling (yn bresennol tan 10 am), Nicola Stubbins, Ricki Owen, Roger Seddon, Shan Lloyd Williams, Sian Tomos, Teresa Owen (yn bresennol tan 10:30 am), Trudy Ellis
Ymddiheuriadau:	Dr Lowri Brown, Sam Parry, Alwyn Williams, Jenny Williams, Meinir Williams-Jones names here
Hefyd yn bresennol:	Alyson Thomas, Prif Weithredwr Dros dro Llais – Llais y Dinesydd Mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (ar gyfer eitem 2 ar y rhaglen) Anthony Jordan, yn mynychu yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Ffrwd Waith Deddfwriaeth, Corff Llais y Dinesydd (ar gyfer eitem 2). Ben Eaton, Uwch Swyddog Polisi Integredig, LIC (ar gyfer eitem 2)

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Croesawodd y Cadeirydd aelodau newydd i'r bwrdd, sef Mr Roger Seddon, Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaethau a Michelle Greene, Cyfarwyddwr y Gymuned Iechyd Integredig, y Dwyrain.

2 Corff Llais y Dinesydd

Rhoddodd AT ddiweddariad i'r Bwrdd ar y Corff Llais y Dinesydd.

Dywedodd AT bod Llais - Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol - corff statudol newydd, er yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, y

GIG ac Awdurdodau Lleol, yn cydweithio â nhw ac eraill i gefnogi gwelliannau parhaus mewn gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae Llais yn disodli'r saith Cyngor Iechyd Cymunedol (CIC) ond bydd yn parhau i adeiladu ar eu gwaith ar sail leol, rhanbarthol a chenedlaethol i gynrychioli cymunedau a darparu gwasanaethau eiriolaeth ac ymgysylltiad cymunedol gwerthfawr i rymuso a chynrychioli cymunedau amrywiol er mwyn sicrhau bod pob llais yn cyfrif.

Wrth gynrychioli buddiannau'r cyhoedd bydd Llais y Dinesydd yn ymgysylltu drwy amrywiaeth o ddulliau â chyrrff GIG ac awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu, adolygu neu gynllunio newidiadau i'w gwasanaethau.

Bydd Llais y Dinesydd yn gweithio i ddatblygu perthnasoedd effeithiol gyda'r cyhoedd, sefydliadau sector annibynnol a gwirfoddol, ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, er budd dinasyddion a gwerthoedd a rennir.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan aelodau'r Bwrdd a thîm dynodedig o staff ac amrywiaeth o aelodau gwirfoddol; gweithio gyda'i gilydd i wneud gwahaniaeth go iawn i bobl Cymru, yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, gyda 2 swyddfa yn y rhanbarth, un yn Wrecsam ac un ym Mangor yn canolbwyntio'n gryf ar weithgareddau allgymorth.

O Ebrill 2023, bydd Corff Llais y Dinesydd yn cynrychioli lleisiau a safbwyntiau pobl Cymru am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan ganolbwyntio ar 3 peth allweddol:

- gwrando ar safbwyntiau'r cyhoedd ym mhob rhan o Gymru am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- helpu i sicrhau bod profiadau bywyd pobl yn siapio dyluniad a gwelliant gwasanaethau - gan ddylanwadu ar gynlluniau a pholisiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- helpu i feithrin gwell cysylltiadau rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, unigolion a chymunedau - sicrhau bod llais y dinesydd yn wirioneddol gynrychiadol.

Cyn 1.4.2023, gofynnir i BPRhGC helpu i godi ymwybyddiaeth o rôl a gwasanaethau Corff Llais y Dinesydd ac annog pobl i wirfoddoli. Bydd Llais yn parhau i weithio gyda BPRhGC ac yn cynnwys y Bwrdd yn natblygiad cynlluniau, blaenoriaethau a ffyrdd o weithio.

Cododd RS bryderon am ddau fater:

Sut y byddai'r gwaith yn integreiddio â gwaith parhaus y fenter datblygu Datblygiad Clwstwr Carlam (ACD), gyda phencampwyr cymunedol, ymgysylltiad a chyfranogiad yn rhan o hyn, a sut y bydd y gwirfoddolwyr yn integreiddio â phobl sy'n gwneud y gwaith hwn yn barod.

Dywedodd AT, o ran cydweithio â phobl, mai rhan allweddol o hyn yw deall beth sydd eisoes yn gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a cheisio deall sut y gallwn weithio gyda'n gilydd a deall lle mae pobl a sefydliadau yn ffitio

Pwy sy'n darparu hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr lleol, a fydd hyn wedi'i integreiddio â'r hyfforddiant ar gyfer pencampwyr lleol a pha sgiliau fydd ganddynt?

Dyweddodd AT mai agwedd sylfaenol bwysig o wirfoddoli yw'r gallu i wrando er mwyn annog pobl i rannu eu safbwyntiau a'u profiadau a gallu gwneud sylwadau ar eu rhan. Bydd pobl hefyd yn chwarae rhan mewn amrywiaeth o ffyrdd a bydd disgwyl iddynt fod ag amrediad llawn o sgiliau a fydd yn cael eu pennu drwy raglen o addysgu craidd a thargedig gan hyfforddwyr mewnol a darparwyr allanol.

Holodd RS a fydd ffiniau Llais yn cyd-fynd â ffiniau'r GIG a'r 14 clwstwr yn benodol.

Nododd AT bod Llais wedi'i sefydlu'n rhanbarthol i ddilyn ôl troed y BPRH fel bod staff sy'n gweithio yn y rhanbarth yn gweithredu'n lleol ac yn rhanbarthol ond o fewn yr ôl troed hwnnw fel y gellir hwyluso cyflwyno sylwadau i wneuthurwyr penderfyniadau sydd yn yr un lle.

Gofynnodd AR sut y mae Llais yn bwriadu ymgysylltu â phawb ar draws gogledd Cymru, gan ragweld anawsterau o ran ymgysylltu o ganlyniad i'r newid o gorff rhanbarthol i gorff cenedlaethol, gan ystyried daearyddiaeth a gwahaniaethau ieithyddol yr ardal.

Soniodd AT am bwysigrwydd peidio â cholli cryfderau CIC a phenderfynodd Llais yn gynnar iawn y byddai saith rhanbarth presennol CIC yn aros yn eu lle, ac y byddai'r staff presennol yn Wrecsam a Bangor yn aros gan fod ganddynt eisoes wybodaeth o gymunedau Gogledd Cymru, a bydd gwirfoddolwyr sy'n byw yng ngogledd Cymru hefyd yn dod drosodd i'r Corff Llais y Dinesydd.

Rhoddodd AJ ddiweddariad ar Gymuned Ymarfer drafft Corff Llais y Dinesydd ar fynediad i eiddo a chanllawiau statudol drafft ar Sylwadau.

Er mwyn cefnogi Llais i ymgymryd â'i swyddogaeth o geisio/cofnodi profiadau pobl o wasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd yn gallu gofyn am gael mynd i eiddo y mae iechyd neu ofal cymdeithasol yn darparu gwasanaethau ynddynt er mwyn ceisio safbwyntiau pobl, a byddant hefyd yn gallu cyflwyno sylwadau ffurfiol i awdurdodau lleol a chyrrff GIG ynghylch materion yn ymwneud ac iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Canllawiau Statudol ar Gyflwyno Sylwadau yn cael eu hymgyngori yn eu cylch ar hyn o bryd a bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 6.3.2023, pan fydd y sylwadau a dderbyniwyd yn cael eu hystyried a newidiadau'n cael eu gwneud i'r ddogfen fel sy'n angenrheidiol cyn ei chyhoeddi erbyn 1.4.2023.

Bydd ymgynghoriad penodol gyda CLID ar y fersiwn diwygiedig o'r Gymuned Ymarfer ar Fynediad a bydd y fersiwn terfynol wedi'i gyhoeddi erbyn 1.7.2023.

Dyweddodd AJ mai'r bwriad yn y ddau achos yw monitro sut y maent yn gweithio yn eu blwyddyn gyntaf ac yn o bosibl diwygio.

Roedd trafodaethau BPRhGC yn canolbwyntio ar y pwyntiau canlynol:

Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (YGAC) ar hyn o bryd yn ymgysylltu â CLID yn yr un ffordd ag yr arferai ymgysylltu â CIC gynt, gyda'r bwriad o ymgynghori ar wasanaethau'r Gwasanaeth Ambiwylans, gan sylweddoli bod cyfrifoldeb CLID yn wahanol i'r ICC a rhoddodd AJ sicrwydd ynglŷn â hyn ac y bydd gwaith yn digwydd gydag AT i weld sut i symud ymlaen.

Does fawr ddim cyfeiriad at hawliau ieithyddol na hyrwyddo'r hawl sydd gan bob i weithio drwy gyfrwng eu mamiaith, a oes yna reswm dros hyn a pha gamau fydd yn cael eu cymryd yn yn cyswllt hwn.

Cadarnhaodd AJ bod y Safonau Iaith yn berthnasol i Llais ac mae'n sylfaenol bwysig bod corff o'r fath sy'n llais dros ddinasyddion yn sefydliad dwyieithog. Bydd Llais yn ehangu ei allu iaith Gymraeg drwy weithgaredd recriwtio i alluogi gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Cytunodd AJ y byddai hyn yn cael sylw o fewn y ddogfen CY drafft.

Diolchodd y cadeirydd i gydweithwyr o Llais a Llywodraeth Cymru am eu trosolwg o'r CLID, gan gadarnhau y bydd aelodau'r BPRh yn ymateb i'r ymgynghoriad fel sy'n briodol.

3 Gwerthusiad o'r Gronfa Gofal Integredig

Cafodd y bwrdd gyflwyniad gan CR ar y gwerthusiad o'r Gronfa Gofal Integredig gan ganolbwyntio ar ddau adroddiad, sef adroddiad gwerthuso cenedlaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan OB3 Research, ac adolygiad bwrdd gwaith o gynlluniau Cronfeydd Gofal Integredig a gynhaliwyd gan y Tîm Cydweithio Rhanbarthol.

Canolbwyntiodd CR ar y prif negeseuon a'r gwersi a ddysgwyd o'r ddau adroddiad.

Adroddiad Gwerthuso Cenedlaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan OB3 Research

Roedd 120 o brosiectau yng Ngogledd Cymru wedi'u hariannu drwy'r Gronfa Gofal Integredig ac roedd y cyllid cyfartalog o'r Gronfa dros tair blynedd diwethaf y rhaglen yn tua £20 miliwn y flwyddyn.

Roedd y Gwerthusiad Cenedlaethol yn cynnwys nifer fach o brosiectau penodol o Ogledd Cymru, prosiect plant ag anabledau dysgu ac anghenion cymhleth, ac roedd y negeseuon allweddol o'r gwerthusiad yn cynnwys:

- Byddai llawer o brosiectau'n anghynladwy heb barhad y cyllid. Mae natur byrdymor y cyllid yn achosi cryn ansicrwydd o ran recriwtio a chadw staff ac anhawster o ran cynllunio yn yr hirdymor a'r gallu i wneud newidiadau cynaliadwy
- Er bod ymdrech wirioneddol i weithredu ar lefel ranbarthol, mae'r nifer uchel o gynlluniau a ddatblygwyd yn arwydd nad yw cynlluniau'n gweithredu ar lefel ranbarthol.
- Nodwyd bod llawer o'r prosiectau astudiaeth achos wedi gwneud defnydd effeithiol o ymgysylltu â dinasyddion i hysbysu darpariaeth.
- Y prif hwyluswyr darpariaeth a ddynodwyd oedd: trefniadau cydweithio; tîm darparu cryf; mabwysiadu model darparu hyblyg a darpariaeth a fydd yn gwella gwybodaeth ymarferwyr eraill.
- Dynodwyd nifer fach o rwystrau allweddol; y pandemig COVID-19; cyllido ar sail flynyddol ac effaith hyn ar recriwtio a dal gafael ar staff.
- Mae rhai cynlluniau'n teimlo bod lefel yr adrodd i'r CGI yn anghymesur â'r gwariant a'r gwerth a geir.
- Mae'r monitro'n canolbwyntio'n ormodol ar allbwn yn hytrach na chanlyniadau a gwersi a ddysgwyd.
- Mae rhannu arfer effeithiol a phrofiadau rhwng prosiectau CGI yn gyfyngedig, mae gwaith rhagweithiol ar y gwell i weld sut i wneud mwy o hyn ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Adolygiad bwrdd gwaith o CGI wedi'i gynnal gan y Tîm Rhanbarthol

Mae'r tîm RIICH wedi cynnal gwerthusiad manwl o 7 prosiect a gyflwynwyd yn yr hydref/gaeaf 2020 ac adolygiad bwrdd gwaith o'r 86 prosiect sy'n weddill o'r Rhaglen Werthuso Genedlaethol.

Roedd y negeseuon allweddol o'r adolygiad bwrdd gwaith yn cynnwys:

- Dim fframwaith canlyniadau a gwerthuso cytunedig a diffyg data cyson.
- Cafodd y pandemig Covid-19 effaith arwyddocaol ar brosiectau gan darfu ar lawer o amcanion gyda llawer o brosiectau a gwasanaethau wedi'u hail-ddylunio i ddiwallu anghenion brys.
- Ar wahân i ddata rhagnodi cymdeithasol rhanbarthol, roedd data i gymharu prosiectau a systemau a ariennir ar draws y rhanbarth yn gyfyngedig, gan olygu nad oes modd asesu prosiectau ar lefel system gyfan.

Nodwyd y newidiadau canlynol o ganlyniad i Werthusiad CGI.

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol erbyn hyn yn:

- Un brif ffynhonnell o gyllid - llawer haws i'w gweinyddu
- Cronfa 5 mlynedd, yn caniatáu i gynllunio hirdymor fod yn fwy arloesol.
- Costau isadeiledd dynodedig
- Un mecanwaith adrodd terfynol, proses haws i bartneriaid fwydo iddi ac adrodd yn ôl i LIC.

- Cyflwyniad cyllid cyfatebol a thapro gyda'r nod o gefnogi cynladwyedd hirdymor prosiectau a chynlluniau.
- Cymorth ariannol i drosglwyddo gwasanaethau craidd gyda'r gallu i wneud gwahaniaeth go iawn ar draws y sector.
- Cyflwyniad fforymau Cymuned Ymarfer - cynrychiolwyr yn bwydo i mewn i'r dysgu gyda LIC a'i ystyried a'i weithredu yn eu hardaloedd eu hunain.
- Cryfhau'r tîm gwerthuso mewnol i gynnwys adnoddau i gefnogi coladu astudiaethau achos.
- Mae'r newidiadau sydd ar y gweill yn cynnwys:
- Sut yr ydym yn rhannu arfer da ac yn codi cynlluniau i lefel ranbarthol a chenedlaethol.
- Fframwaith monitro perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau - gweithio gyda LIC i greu proses syml i fwydo i mewn i fframwaith Cymru gyfan er mwyn gallu cymharu data ar sail genedlaethol.

Pwyntiau trafod a amlygwyd:

Y mater hanfodol bwysig fydd adrodd ar y gwahaniaeth y mae'r canlyniadau wedi'u gwneud i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau a gofynnodd a fydd y bwriad i gynnwys astudiaethau achos yn seiliedig ar ddynodi canlyniadau clir o'r cychwyn cyntaf sydd wedi'u cysylltu drwy'r prosiect i ddangos sut y digwyddodd y newidiadau.

Roedd CR yn cytuno, er mwyn gweld gwir gwahaniaeth yn cael ei wneud ei bod yn hollbwysig datblygu'r canlyniadau a ddymunir ar ddechrau'r prosiect a'u monitro nhw ar bob cam o'r rhaglen ochr yn ochr â'r elfen astudiaeth achos. Os yw'n glir ar unrhyw bwynt nad yw'r prosiect yn darparu'r hyn a ddymunir bydd y partneriaid yn darganfod pam ac yn diwygio'r canlyniadau. Mae cydweithwyr yn dysgu'n barhaus drwy gydol y broses.

Cynnig ffordd well o ddefnyddio cyllid 'unwaith yn unig' yn hytrach na'i ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau sefydledig blaenllaw, buddsoddi mewn rhaglenni newydd a fydd yn arwain at ganlyniadau i gleifion.

Nodwyd bod y cytundeb CGI yn pennu canllawiau llym ar gyfer adeiladu'r gwerthusiad nad yw'n cael ei gyflawni hyd ddiwedd yr ymarfer, a chynigiodd wrth drafod monitro, bod rheolaeth hefyd yn cael ei drafod, a rheoli sut y caiff y prosiect ei redeg yn ganolog, fel proses gyfochrog a elwir yn 'elwa', sef trefn lle dynodir ar ddechrau proses sut yr ydych yn mynd i 'gynaeafu' a bwydo i mewn i raglenni pellach, a chasglu archif o wybodaeth y gellir ei defnyddio mewn prosiectau yn y dyfodol.

Cydnabuwyd y gwaith sylweddol a wnaed gan y tîm rhanbarthol ar werthusiad y Gronfa Gofal Integredig.

Diolchodd CR i'r BPRh am y pwyntiau diddorol a godwyd heddiw a dywedodd ei bod y galonogol gweld pawb yn ystyried y gwaith hwn i sefydlu fframwaith seiliedig ar ganlyniadau a fydd yn dangos y gwahaniaethau y mae'r cynlluniau yn eu gwneud. Bydd y tîm rhanbarthol yn archwilio'r broses o ddal a rhannu gwybodaeth am ddatblygu, darparu a monitro.

4 Is-gadeirydd

Cyflwynodd CR adroddiad ar y broses o enwebu a phenodi is-gadeirydd BPRhGC.

Yn unol â' chylch gorchwyl y BPRh, tymor cadeirydd y bwrdd yn y swydd yw dwy flynedd a daw tymor y cadeirydd presennol i ben ar 31.3.2023. Ar y pwynt hwnnw bydd yr Is-gadeirydd yn mabwysiadu'r rôl o 1.4.23 am y ddwy flynedd nesaf, felly bydd angen Is-gadeirydd newydd erbyn mis Ebrill.

Gan fod y cadeirydd yn dod o wahanol sectorau yn eu tro, (Anstatudol, y Bwrdd Iechyd, Statudol), y tro hwn bydd yr i'r is-gadeirydd y dod o'r Bwrdd Iechyd.

Gofynnir i BPRhGC gefnogi'r broses ddrafft atodedig ar gyfer ethol is-gadeirydd.

Gofynnir i'r BPRh hefyd ystyried y posibilrwydd o benodi dau Is-gadeirydd. Byddai hyn yn caniatáu cynrychiolaeth o bob sector ac yn cynyddu gwytnwch ar lefel arweinwyr drwy gydol yr adeg.

Pe bai BPRhGC yn cytuno i gefnogi dau is-gadeirydd, byddai'r adroddiad ar y broses o ethol is-gadeirydd yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu hyn a byddai'r ail is-gadeirydd yn gorfod bod o'r sector statudol. Byddai'r tîm rhanbarthol hefyd yn ystyried sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol ac yn adrodd yn ôl yn un o gyfarfodydd nesaf y BPRh.

Nododd aelodau BPRhGC eu cefnogaeth i'r cynnig i benodi dau is-gadeirydd gan gytuno y byddai'n cryfhau llais y BPRh, yn enwedig mewn cyfarfodydd cenedlaethol, yn rhoi gwytnwch i'r bwrdd, yn darparu cyfnod hirach i ymgartrefu yn y rôl a chyfle i rai na fyddent o bosibl fel arall yn gwirfoddoli.

Cymeradwyodd y Bwrdd y broses ar gyfer penodi is-gadeirydd ac i gynnwys ail is-gadeirydd, a chytunodd CR i gyflwyno adroddiad pellach mewn cyfarfod i ddod ar y trefniadau ymarferol.

Cam Gweithredu

- Diwygiadau i'r Cylch Gorchwyl o ran sut y byddai 2 is-gadeirydd yn gweithio'n ymarferol- CR

5 Diweddariad ar weledigaeth y BPRh

Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod mis Tachwedd a dosbarthiad dogfennau gweledigaeth drafft, mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u cynnwys mewn dogfen ddiweddaredig ac ynghyd â'r ddogfen 'Enw'r Gwasanaeth' bydd yn cael ei dosbarthu i aelodau'r Bwrdd gyda'r broses bleidleisio.

Bydd y Cylch Gorchwyl hefyd yn cael ei ddiweddarau i gynnwys y newidiadau i'r weledigaeth a'i gynnwys ar raglen y Bwrdd ym mis Chwefror er trafodaeth a chymeradwyaeth.

Pwrpas y gwaith hwn yw sicrhau bod y Cylch Gorchwyl yn addas i'r pwrpas, gyda mewnbwn pob aelod i'w groesawu er mwyn creu agenda sy'n canolbwyntio'n well ar ddiwallu amcanion BPRhGC. Unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo, bydd y ddogfen yn cael ei defnyddio i godi proffil y BPRh ar draws Gogledd Cymru.

6 Diweddariad BIPBC

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad ar lafar gan GH ynghylch y Grŵp Iechyd a Gofal Strategol.

- Model Gweithredu BIPBC, penodiadau i swyddi ym mis Ionawr.
 - Michelle Greene, Cyfarwyddwr IHC, y Dwyrain
 - Karen Higgins, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol
 - Steve Webster, Cyfarwyddwr Cyllid Interim
- Y pandemig/ffliw wedi creu pwysau arwyddocaol a digynsail yn yr unedau damweiniau ac achosion brys a'r unedau gofal critigol. Mae BIPBC yn cynnal trafodaethau gyda thimau ynglŷn â'r ffyrdd o weithio yn ystod y pandemig er mwyn gwella capasiti mewn gofal critigol ac anadlol. Parhau i hyrwyddo brechiadau yn erbyn Covid a'r fflw i liniaru'r pwysau aruthrol ar bawb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cafwyd hysbysiad gan y PSM a'r Dirprwy PSM ynghylch goddefiant a risg wrth ryddhau pobl sy'n feddygol iach; mae clinigwyr yn cael eu cefnogi gyda gwneud penderfyniadau o fewn y maes hwn o bwysau a chydabuwyd gefnogaeth yr holl bartneriaid.
- Mae Nyrs Ymgynghorol Dementia BIPBC yn gweithio mewn partneriaeth ar astudiaeth o deuluoedd y mae aelod o'r teulu wedi cael diagnosis o ddementia.
- Bydd y gwasanaeth 111+2 yn mynd yn weithredol mis yma ac mae capasiti 7 diwrnod yr wythnos yn ddibynnol ar y gallu i recriwtio.
- Cydnabuwyd gefnogaeth partneriaid i liniaru'r risgiau yn ystod y gweithredu diwydiannol diweddar a chyfredol.

Dywedodd MW y mynychodd gyfarfod LIC yn ddiweddar gydag arweinwyr a chadeiryddion y BPRh i drafod y pwysau o ran rhyddhau o'r ysbyty gan gydnabod y pwysau arwyddocaol sydd ar bawb o fewn y system. Mae MW yn credu bob rhagor o waith y gall partneriaid ei wneud o ran cydweithio ar yr oedi presennol mewn rhyddhau cleifion o'r ysbyty a chynigiodd sefydlu trafodaeth gyda

phartneriaid allweddol ynglŷn ag ymdriniaeth ddiwylliannol lle bydd yr holl bartneriaid yn cytuno ar ffordd o weithio a chael sgysiau anodd gyda theuluoedd er mwyn osgoi gorfod cymryd risgiau gormodol.

Roedd aelodau BPRhGC yn gytûn y dylid sefydlu grŵp i drafod y mater hwn ymhellach gyda chydweithwyr allweddol y tu allan i'r Bwrdd ac adrodd yn ôl i BPRh mis Chwefror.

Camau Gweithredu:

- Trefnu cyfarfod gyda chydweithwyr allweddol i drafod y rhaglen rhyddhau o'r ysbyty - RW
- Diweddariad ar Ryddhau ym mis Chwefror – RW

7 BPRhGC – Gynllun Gwaith i'r Dyfodol Drafft (FWP) 2022-23

Rhoddodd CR ddiweddariad ar Gynllun Gwaith i'r Dyfodol 2022-23 BPRhGC

Atgoffir yr aelodau mai cyfarfod rhithiol fydd cyfarfod mis Chwefror ac y bydd cyfarfod mis Mawrth yn un wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Fusnes Conwy.

Mae RhGD BPRhGC hefyd yn rhoi cyfle i aelodau'r Bwrdd siapio'r rhaglen drwy gyflwyno eitemau perthnasol i'w trafod. Dylid anfon awgrymiadau at Catrin Roberts/Ruth Whittingham.

Cyfeiriodd y Cynghorydd LR at Gynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Pobl i Wneud Ymarfer Corff y rhaglen 'Adeiladu Cymru Iachach' ac yn benodol gostyngiad arwyddocaol mewn atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu oherwydd y pwysau sydd ar BIPBC ar hyn o bryd, a chytunodd CR i fynd ar ôl hyn y tu allan i'r Bwrdd.

Camau Gweithredu:

- Anfon e-bost atgoffa ar gyfer cyfarfod BPRhGC mis Mawrth.
- CR a'r Cynghorydd LR i drafod hyn y tu allan i'r Bwrdd

8 Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf – Rhagfyr 2022

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 8.12.2022 fel cofnod cywir,

Cam Gweithredu: nodiadau cyfarfodydd y Grŵp Arweinyddiaeth i'w cynnwys ym mhecynnau cyfarfodydd y dyfodol.

9 Unrhyw Fater Arall

Dim byd i'w adrodd

10 Er gwybodaeth:

Atgoffir partneriaid BPRhGC y bydd sesiynau hyfforddi'r bwrdd ar y dyddiadau canlynol:

- 17.01.2023 – 3:00 – 4:30 pm
- 31.01.2023 – 9:00 – 10:30 am

Cynhwyswyd hefyd lythyr gan LIC am waith partneriaeth, integreiddiad a meithrin capasiti yn y gymuned, a bydd cydweithwyr LIC yn mynychu cyfarfod BPRhGC mis Chwefror i roi cyflwyniad pellach.

11 Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:

Dydd Gwener 10 Chwefror 2023 - rhithiol dros Zoom

Dydd Gwener 10 Mawrth 2023 - cyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Fusnes Conwy